

## Templed Asesu Sgrinio

## Atodiad B

Dylech gyfeirio at y dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol sydd wedi eu cynnwys yn y fframwaith deddfwriaethol (Atodiad A) wrth gwblhau'r asesiad sgrinio.

Y Polisi Arfaethedig ... Cynllun Gweithredu Gweithgarwch Corfforol

### Rhowch dic yn y blwch priodol

Llinyn Cydraddoldeb	Y Dystiolaeth a Nodwyd	Pwysiad			Perthnasedd			Materion a godwyd gan y dystiolaeth	
		Anfoddfaol	Boddfaol	Cryf	Dim perthnasedd amlwg	Isel	Canolig		Uchel
<b>Anabledd (Mandadol)</b>	<p>Nid yw data cyfredol Arolwg Iechyd Cymru (2007) yn ddigon cadarn i ni benderfynu'r cyfraddau cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol yng Nghymru ond dengys tystiolaeth o leoedd eraill yn y D.U. (<i>Sport England - Active People Survey 2007/08</i>) fod cyfranogaeth oedolion mewn chwaraeon (yn cynnwys cerdded a beicio) yn aml yn is na'r boblogaeth gyffredinol.</p> <p>Mae a wnelo'r rhwystrau a ganfuwyd, sy'n atal cyfranogi, â mynediad ffisegol,</p>		X				X		Mae angen mynd i'r afael â'r diffyg data ar gyfer Cymru yn y grŵp hwn fel rhan o adolygu gwerthuso'n gyffredinol, sydd wedi ei restru fel gweithred yn y cynllun

	<p>diffyg gwybodaeth a sgiliau mewn canolfannau hamdden a chan wirfoddolwyr, cost, materion iechyd a mynediad at wybodaeth ynglŷn â gweithgareddau (<i>Sport England 2002, Rimmer et al 2004</i>).</p> <p>Mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau hyn ac un o'r camau allweddol yw gweithio gyda chwaraeon i'r anabl i gynorthwyo cyrff allweddol i gynllunio'n fwy cynhwysol a delio â rhwystrau.</p>								
<b>Hil (Mandadol)</b>	<p>Nid yw'r dystiolaeth o'r effaith ar hil yn glir yn achos Cymru. Dengys y dystiolaeth yn Lloegr fod y rhan fwyaf o leiafrifoedd ethnig yn cymryd llai o ran mewn gweithgarwch corfforol ac eithrio grwpiau Du Caribiaidd a Gwyddelod. Ceir cydnabyddiaeth, fodd bynnag, fod merched ar draws pob hil yn cyfranogi llai, yn arbennig merched o Dde Asia (Llywodraeth Ei Mawrhydi 2009). Blaenoriaeth allweddol i'r cynllun yw cynyddu'r graddau y mae merched yn cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol, gyda nifer o weithredoedd wedi eu rhestru i fynd i'r afael â'r annhegwch hwn.</p>		X			X			<p>Mae angen mynd i'r afael â'r diffyg data ar gyfer Cymru yn y grŵp hwn fel rhan o adolygu gwerthuso'n gyffredinol, sydd wedi ei restru fel gweithred yn y cynllun</p>

<b>Rhyw (gan gynnwys trawsrywiol)</b>	<p>Mae cyfraddau cyfranogaeth merched yn gyffredinol yn is na dynion (Arolwg Iechyd Cymru 2007). Ni ellid canfod unrhyw dystiolaeth ynghylch cyfranogaeth rhai trawsrywiol (Brackenridge et al 2008).</p> <p>Y flaenoriaeth allweddol ar gyfer datblygu'r cynllun hwn yw cynyddu cyfraddau cyfranogaeth merched a chaiff adnoddau eu targedu tuag at y maes hwn.</p>			X				X
<b>Oedran</b>	<p>Mae cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol yn lleihau gydag oedran (Arolwg Iechyd Cymru 2007). Mae plant yn aml yn ddibynnol ar gefnogaeth deuluol am anogaeth ac felly mae ymyriadau seiliedig ar y teulu yn ffurfio rhan allweddol o'r cynllun hwn. Mae'r cynllun yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod pobl hŷn yn cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol gyhyd ag y bo modd gan y gall hyn gael effaith fawr ar ansawdd eu bywyd. Mae nifer o weithredoedd yn y cynllun yn ceisio sicrhau bod mwy o gyfleoedd wedi eu targedu at y grŵp hwn.</p>			X				X

<b>Crefydd/Cred/Dim cred</b>	Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael am hyn gan fod arolygon yn cael eu cyflwyno yn ôl ethnigrwydd yn aml yn hytrach na chrefydd. Lle y mae ar gael mae'n ymwneud â'r rhwystrau sy'n wynebu rhai merched Mwslimaidd; gellir goresgyn llawer o'r rhain gyda newidiadau priodol mewn rhaglennu, staff ac amgylchedd ( <i>Sport Scotland 2008</i> ).		X				X	Mae angen mynd i'r afael â'r diffyg data ar gyfer Cymru yn y grŵp hwn fel rhan o adolygu gwerthuso'n gyffredinol, sydd wedi ei restru fel gweithred yn y cynllun
<b>Tuedd rywiol</b>	Nid oes dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd sy'n nodi rhwystrau na chyfraddau cyfranogi (Brackenridge et al 2008).				X			
<b>Hawliau Dynol: os yn berthnasol</b> (gweler Atodiad D am ragor o wybodaeth)								